# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)31-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 23 Tachwedd 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 4, Ty Hywel

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Rheoli Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes
Llinos Madeley, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

#### BC(3)30-10 (Cofnodion drafft) – dydd Mawrth 16 Tachwedd 2010

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

#### Busnes yr wythnos hon - BC(3)31-10(p1)

3.1 Cyhoeddodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb y byddai'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau yn gwneud datganiad am Ganolfannau Busnes Technium ddydd Mawrth.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ohirio'r Rheolau Sefydlog ar 24 Tachwedd er mwyn cyflwyno cynnig i gytuno ar welliant i Reol Sefydlog 27A.9 (gweler eitem 4).

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i newid y drefn ar gyfer busnes heblaw busnes y Llywodraeth er mwyn i ddadl fer Nick Bourne fod yr eitem olaf o fusnes ddydd Mercher.

3.4. Cytunodd y Pwyllgor na fydd y cyfnod pleidleisio ddydd Mawrth a dydd Mercher yn digwydd cyn 17.00.

3.5 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 23 a 24 Tachwedd 2010.

#### Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)31-10(p2)

3.6 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

#### Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)31-10(p3)

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

### 4. Busnes arall

#### (i) Amserlen y Gyllideb flynyddol – gwelliant arfaethedig i Reol Sefydlog 27A.9 dros dro – BC(3)31-10(p4)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn yr amser a ganiateir i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno'i adroddiad ar yr amcangyfrif o incwm a gwariant Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru tan 21 Ionawr 2011 (Rheol Sefydlog 27A.9).

4.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ohirio'r Rheolau Sefydlog er mwyn i'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 27A dros dro gael e ystyried ar 24 Tachwedd (gweler paragraff 3.2 uchod).

## 5. Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog

**(i) Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog: newidiadau arfaethedig yn ymwneud â Rheolau Sefydlog deddfwriaethol 22-26 – BC(3)31-10(p5)**

**Atodiad A – Tabl o Newidiadau – BC(3)31-10(p5a)**

**Atodiad B – Rheol Sefydlog ddiwygiedig - BC(3)31-10(p5b)**

**Atodiad C – Crynodeb o'r trafodaethau â chadeiryddion y pwyllgorau deddfwriaeth – BC(3)31-10(p5c)**

**Atodiad D – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol – BC(3)31-10(p5d)**

5.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau yn ymwneud â Rheolau Sefydlog deddfwriaethol (Rheolau Sefydlog 22-26). Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau ar y newidiadau arfaethedig, gyda'r bwriad o'u hystyried ymhellach yn chweched cyfarfod cyhoeddus y Pwyllgor Busnes ar 7 Rhagfyr.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**